



Gower College Swansea  
Coleg Gŵyr Abertawe

## DATGANIAD POLISI MASNACH DEG

---

### “Yr Hyn Mae Masnach Deg yn ei Wneud”

*“Mae Masnach Deg yn ymwneud â gwell prisiau, amodau gwaith derbyniol a thelerau masnachu teg i ffermwyr a gweithwyr. Mae Masnach Deg yn helpu ffermwyr i elwa mwy ar fasnach gan eu grymuso i gymryd rheolaeth dros eu bywydau. Mae’n ddull amgen sy’n seiliedig ar bartneriaeth; un rhwng y rhai sy’n tyfu ein bwyd a’r rhai sy’n ei fwyta.*

*Mae’n ymwneud â chefnogi datblygiad cymunedau ffyniannus ffermwyr a gweithwyr sydd â mwy o reolaeth dros eu dyfodol a diogelu’r amgylchedd lle maen nhw’n byw ac yn gweithio.”*

Mae Coleg Gŵyr Abertawe a’i gorff myfyrwyr cysylltiedig (Cyngor Myfyrwyr) yn deall pwrpas a gwerthoedd Masnach Deg ac yn ymrwymo i gefnogi’r egwyddorion a’r cynhyrchion lle bo’n bosibl a hybu ymwybyddiaeth drwy gymuned y Coleg. Mae’r datganiad polisi hwn yn tynnu sylw at ymrwymiad y Coleg a’r myfyrwyr i Fasnach Deg a’r pum nod a restrwyd gan y Sefydliad Masnach Deg.

### Nod 1 – Pasio Datganiad Polisi Masnach Deg

Bydd Nod 1 yn cael ei gyflawni pan fydd Tîm Rheoli’r Coleg a’r Cyngor Myfyrwyr yn cydnabod ac yn cefnogi’r Datganiad Polisi Masnach Deg hwn. Caiff y polisi hwn ei adolygu bob blwyddyn, i weld sut y gellir ei wella a’i ddatblygu.

### Nod 2 – Cael Cynhyrchion Masnach Deg ar y Campws

Ar hyn o bryd mae’r Coleg yn darparu amrywiaeth eang o gynhyrchion Masnach Deg yn ei ffreuturau. Bydd y Coleg yn adolygu’r amrywiaeth o gynhyrchion sydd ar gael a bydd yn ystyried cynyddu’r dewisiadau sydd ar gael i staff a myfyrwyr.

### Nod 3 – Defnyddio Cynhyrchion Masnach Deg mewn Cyfarfodydd

Bydd y Coleg yn gweini cynhyrchion Masnach Deg ym mhob cyfarfod/digwyddiad a gynhelir gan y Coleg a’r Cyngor Myfyrwyr, gan gynnwys cyfarfodydd rheolwyr

mewnol. Bydd te, coffi a siwgr yn cael eu gweini fel sy'n arferol gyda chynhyrchion Masnach Deg eraill yn cael eu cyflwyno lle bo'n bosibl (e.e. bisgedi, sudd a ffrwythau).

#### **Nod 4 – Trefnu Ymgyrchoedd Masnach Deg**

Bydd y Coleg yn cefnogi hyrwyddo ymgyrchoedd Masnach Deg ar y campws i gynyddu'r ddealltwriaeth o Fasnach Deg a bwyta cynhyrchion Masnach Deg. Gall hyn gynnwys y canlynol:

- Hyrwyddo Pythefnos Masnach Deg
- Wythnos Bwyta'n Iach
- Pecynnau Wythnos y Glas
- Codi ymwybyddiaeth o gynhyrchion Masnach Deg lle maen nhw ar gael i'w prynu ar safleoedd y Coleg (e.e. ffreuturau, peiriannau gwerthu, Vanilla Pod, Plas Sgeti ac ati)
- Erthyglau yng Nghylchlythyr y Coleg

Bydd y Coleg hefyd yn cynnal adolygiad i nodi ble mae Masnach Deg yn rhan o gwricwlwm y Coleg a nodi unrhyw feysydd lle y gellir ei hintegreiddio i'r cwricwlwm.


#### **Nod 5 – Sefydlu Grŵp Llywio Masnach Deg**

Bydd Grŵp Llywio Masnach Deg y Coleg yn cwrdd o leiaf unwaith y tymor i oruchwylio gweithrediad gweithgareddau Masnach Deg yn y Coleg. Bydd yr aelodaeth yn cynnwys y canlynol o leiaf:

- 2 fyfyrwr y Coleg
- 1 uwch reolwr y Coleg
- 1 aelod o staff academiaidd
- Rheolwr Arlwyo
- Swyddog Caffael

Bydd y Grŵp Llywio Masnach Deg yn cwrdd o leiaf unwaith y tymor i adolygu gweithrediad y polisi a'i ddiweddarau yn flynyddol.

Llofnodwyd gan:



**Mark Jones**  
**Pennaeth**  
**(ar ran Tîm Rheoli'r**  
**Coleg)**



**Rhys Cozens**  
**Myfyriwr**  
**(ar ran Cyngor y Myfyrwyr)**